

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyfarfod Cyswilt Cyngorau Tref a Chymuned

Nos Fercher, 21 Ionawr 2015

7.00 yh

Siambr y Cyngor
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

Rhaglen

1. Cadarnhau cofnodion

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2014 yn amgaaedig.

2. Cwrdd â'r Heriau – Cynigion Cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2015/16

Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael ar y linc canlynol (hefyd wedi'i gylchredeg eisoes):

<http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori/cwrdd-r-heriau-ein-cynigion-cychwynnol-ar-gyfer-cyllideb-2015/16/124633.article>

3. Ad-drefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru

Diweddariad gan Arweinydd y Cyngor.

4. Ychwanegu gwerth ar raglenni gwaith Pwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor

Nodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2014 – copi yn amgaaedig.

5. Unrhyw Fater Arall

Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor,
Llangefni ar 23 Hydref 2014 am 7 yh.

Presennol:

Yn cynrychioli Cyngorau Tref a Chymuned

Marilyn Hughes, Gwynn Jones	Amlwch
B Kotkowicz, S Zalot	Biwmares
Mairede Thomas	Cwm Cadnant
Elfed Jones	Llanbadrig
Delyth Owen	Llanfaelog
Hanna Huws	Llanfairpwll
Ian Owen, Ted Thomas, Einion Williams	Llanfihangel Esceifiog
Janice M Davies, Margaret A Thomas	Llangefni
Geraint Parry	Llangoed; Llanddona
J E Lewis	Bodffordd; Llangefni
Eifion H Jones	Pentraeth
Eric Roberts, Bill Rowlands	Trearddur
Anna Jones	Tref Alaw
Edna Jones, Margaret Price	Trewalchmai
Gwenda Owen, Mavis Swaine-Williams	Y Fali

Yn cynrychioli Cyngor Sir Ynys Môn

Y Cynghorydd Ieuan Williams	Arweinydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Hywel Eifion Jones	Deilydd Portffolio Cyllid
Richard Parry Jones	Prif Weithredwr
Gwen Carrington	Cyfarwyddwr Cymuned
Richard Micklewright	Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 dros dro (ar gyfer eitem 2)
Geraint Wyn Roberts	Swyddog Sgriwtini (ar gyfer eitem 4)
Rhian Wyn Jones	Swyddog Polisi

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn
Rita Lyon	Cymunedau'n Gyntaf Môn (ar gyfer eitem 3)
Marton Fabok	Prifysgol Lerpwl (arsyllwr)

Ymddiheuriadau:

Cliff Everett (Caergybi)
Jack Jones, John Jukes (Llannerchymedd)
Cyngor Tref Porthaethwy
Cyng Aled Morris Jones (Cyngor Sir Ynys Môn)
Huw Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro, Cyngor Sir Ynys Môn)

Rhoes Arweinydd y Cyngor groeso i Mr Marton Fabok, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod fel arsyllwr fel rhan o'i waith ymchwil ar Wylfa Newydd a'i heffaith ar gymunedau lleol.

1. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2014 fel rhai cywir, yn amodol ar y canlynol:

Cyfeiriwyd at y ffaith bod Llanfihangel Esceifiog wedi gofyn cwestiynau yn y cyfarfod diwethaf mewn perthynas â'r Parc Gwyddoniaeth ond nad oedd cyfeiriad at hyn yn y cofnodion. Nodwyd bod y mater wedi'i ddilyn i fyny wedi hynny gan y Cyngor Cymuned a bod ymateb wedi'i dderbyn.

Materion yn codi:

Nododd Cyngor Tref Biwmares nad oedd 'Trosglwyddo Asedau' wedi'i gynnwys fel eitem ar raglen y cyfarfod hwn ac mynegwyd pryder mewn perthynas â gohebiaeth a ddanfonwyd yn ddiweddar at y Clerc ynghylch yr ymrwymiad ariannol yn gysylltiedig â throsglwyddo cyfleusterau cyhoeddus. Eglurodd yr Arweinydd bod trafodaethau mewnol yn parhau ac na fyddai'r Cyngor mewn sefyllfa i symud ymlaen nes bydd y trafodaethau hyn wedi'u cwblhau.

I'w weithredu: Swyddogion perthnasol y Cyngor i gysylltu gyda Chlerc Cyngor Tref Biwmares erbyn y dydd Llun canlynol (27 Hydref) er mwyn egluro'r sefyllfa gyfredol.

2. Rhagolygon Cyllidebol Gwneud Gwahaniaeth: Strategaeth Effeithlonrwydd Ddrafft 2014-17

Rhoddodd yr Arweinydd gyflwyniad yn amlinellu strategaeth effeithlonrwydd ddrafft y Cyngor dros dair blynedd sydd ar hyn o bryd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae gan Ynys Môn gyllideb o £126m ac amcangyfrifir y bydd angen gwneud arbedion o oddeutu £15m dros y tair blynedd nesaf. Pwrpas y strategaeth ddrafft hon yw rhoi cyfeiriad eglur dros y blynyddoedd i ddod a sicrhau dealltwriaeth ymysg y cyhoedd, staff a chynghorwyr o ran sut y mae'r Cyngor yn anelu at gwrdd â'i heriadau ariannol.

Nodwyd y gallai'r camau yr amlinellir yn y strategaeth ddrafft ddarparu arbedion o oddeutu £12.5m, sy'n dal i adael diffyg o £3m dros y tair blynedd nesaf. Byddai gwaith felly'n parhau ar ddatblygu'r cynigion hyn ac eraill a bwriedir datblygu cynigion mwy manwl ar arbedion ar gyfer ymgynghori blynyddol.

Ceir crynodeb isod o'r prif bwyntiau a wnaed yn ystod y drafodaeth ddilynol:

Trefniadau i weithio ar y cyd – Dylid gwneud mwy o waith gyda'r sector breifat er mwyn cyflawni arbedion (Trearddur).

Lleihau costau democratiaeth – pwysigrwydd cryfhau democratiaeth a hyrwyddo amrywiaeth mewn llywodraeth leol (Llanfairpwll).

Cael y gorau allan o'n staff – angen cadw mewn cof yr effaith y gallai diswyddiadau a pheidio llenwi swyddi gweigion gael ar lefelau salwch (Llanfairpwll).

Ymgynghori – angen sicrhau bod dulliau ymgynghori'r Cyngor yn gadarn (Llanfairpwll).

Herio a ddylem ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn statudol – angen ymgysylltu gyda'r holl randdeiliaid mor gynnar a phosibl ar unrhyw doriadau mawr i wasanaethau nad ydynt yn statudol (Cwm Cadnant)

Ailffurfio Llywodraeth Leol yng Nghymru - Wrth gydnabod bod yr amserlen yn mynd ymhellach na thair blynedd y strategaeth effeithlonrwydd, pwysleisiwyd pwysigrwydd gwneud gwaith ymchwil ar y goblygiadau posibl os bydd Cyngorau'n uno. (Cwm Cadnant).

I'w weithredu: Cytunwyd y dylid trafod Ailffurfio Llywodraeth Leol yn y cyfarfod nesaf.

Trosglwyddo Asedau

Angen i gynghorau cymuned gadw mewn cof y costau sy'n gysylltiedig â chynnal ac yswirio cyfleusterau cymunedol megis caeau chwarae (Llanfihangel Esceifiog).

Angen sicrhau bod gwybodaeth ariannol ddigonol yn cael ei rhoi i gynghorau tref a chymuned er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys am y posibilrwydd o drosglwyddo asedau (Biwmares).

Pwysigrwydd symud ymlaen cyn gynted a phosibl gyda thrafodaethau ar drosglwyddo asedau o gofio bod angen i gynghorau tref a chymuned osod praeseptau (Bodffordd; Llangejni)

Angen cadw mewn cof bod gallu'r cynghorau cymuned lleiaf i gymryd cyfrifoldeb am wasanaethau wedi'i gyfyngu gan nad oes ganddynt ddigon o gapasiti ac adnoddau (Amlwch) - awgrymodd yr Arweinydd y gallai'r cynghorau lleiaf ystyried gweithio mewn partneriaeth gyda chynghorau cyfagos.

Grŵp Rhanddeiliaid Cyngorau Tref a Chymuned

Eglurodd yr Arweinydd bod y Cyngor yn dymuno trafod cynigion mewn mwy o fanylder gyda chynghorau tref a chymuned a gofynnodd am wirfoddolwyr i gynrychioli'r fforwm yma ar Grŵp Rhanddeiliaid Cyngorau Tref a Chymuned. Cytunodd yr unigolion canlynol i gynrychioli cynghorau tref a chymuned ar y grŵp rhanddeiliaid:

Gwynn Jones (Amlwch)
Stan Zalot (Biwmares)
J E Lewis (Bodffordd; Llangefni)
Margaret Thomas (Llangefni)
Einion Williams (Llanfihangel Esceifiog)

3. Cymunedau'n Gyntaf Môn

Rhoddodd Rita Lyon o Cymunedau'n Gyntaf Môn (Môn CF) gyflwyniad yn amlinellu gwaith Cymunedau'n Gyntaf a'r gwasanaethau sydd ar gael o fewn cymunedau. Fe'i sefydlwyd yn 2012 er mwyn darparu rhaglen Cymunedau'n Gyntaf Ynys Môn ac mae'n cynnig ystod eang o wasanaethau a chefnogaeth o dan ddwy brif thema - Cymunedau Llewyrchus a Chymunedau Dysgu.

Yn ychwanegol i'r gwasanaethau sydd ar gael mae Môn CF wedi gwneud yr ymrwymiad canlynol i fuddion cymunedol:

- Gydag unrhyw gytundeb torri gwair byddant yn cynnig cyfle hyfforddiant i berson ifanc o'r ardal drwy weithio ochr yn ochr â'u tîm
- Byddant hefyd yn cynnig gwasanaeth gwiriadau offer chwarae am ddim gyda phob cytundeb torri gwair

Anogodd Rita Lyon gynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned i gysylltu gyda Môn CF i drafod unrhyw gyfleoedd i weithio ar y cyd, am gefnogaeth i wneud ceisiadau am grant ayyb, gan nodi bod Môn CF yn agored i gael trafodaeth ar unrhyw fater.

4. Ychwanegu gwerth ar raglenni gwaith Pwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor

Cychwynnodd Geraint Roberts, Swyddog Sgriwtini, trwy amlinellu pwrpas pwyllgorau sgriwtini a'r strwythur sgriwtini o fewn y Cyngor sy'n cynnwys dau bwyllgor – y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

Eglurodd y Swyddog Sgriwtini bod Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini yn awyddus i gychwyn deialog gyda'r trydydd sector a chynghorau tref a chymuned er mwyn hyrwyddo a chryfhau democratiaeth leol. I'r perwyl hyn, roedd bwriad cynnal cyfarfod anffurfiol gyda rhanddeiliaid yn ystod mis Rhagfyr 2014, er mwyn rhoi cyfle i gynrychiolwyr cymunedol i roi sylwadau ar raglenni gwaith y pwyllgorau sgriwtini.

I'w weithredu: Nodwyd y byddai'r dyddiad ar gyfer y cyfarfod arfaethedig yn cael ei gytuno cyn gynted a phosibl ac y dylid anfon gwahoddiadau i fynychu at glercod cynghorau tref a chymuned yn ogystal ag Unllais Cymru.

5. Unrhyw fater arall

5.1 Gwasanaeth i'r Cwsmer

Cyfeiriwyd at broblemau a gafwyd gan gynghorau cymuned o ran cael atebion i'w gohebiaeth gan y Cyngor, yn ogystal â dychwelyd galwadau ffôn (Llanfihangel Esceifiog, Trearddur, Y Fali).

I'w weithredu: Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol i gysylltu'n uniongyrchol hefo fo pan gyfyd unrhyw broblemau er mwyn iddo roi sylw i'r mater. Gofynnodd hefyd i'r Prif Weithredwr gylchredeg neges at Benaethiaid Gwasanaeth yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau yr ymdrinnir â phob ymholiad yn brydlon.

5.2 Protestio – Swyddfeydd y Cyngor

Mynegwyd pryder bod y Cyngor yn cael ei weld i fod yn gwrthbwysu'r hawl i unigolion brotestio'n heddychlon y tu allan i adeilad y Cyngor trwy osod baricedau a ystyriwyd i fod yn ormodol (Llanfairpwll).

I'w weithredu: Ymatebodd yr Arweinydd y byddai'n sicrhau bod y swyddogion perthnasol yn cael gwybod am y pryder a fynegwyd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40 yh

Ynys Môn

THE ISLE OF

Anglesey

Cwrdd â'r Heriau:

Ein Cynigion Cychwynnol
ar gyfer Cyllideb 2015/16



www.ynysmon.gov.uk

www.anglesey.gov.uk



cyngormon
ioacc



@cyngormon
@angleseycouncil



Cwrdd â'r Heriau: Ein cynigion cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2015/16

Mae'r Cyngor eisiau clywed eich barn ar y gwahanol arbedion a'r cynigion i gynyddu incwm a gwella effeithlonrwydd am y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r rhain wedi cael eu datblygu gan swyddogion ac aelodau etholedig ac wedi eu cytuno gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor yn eu cyfarfod ar Ragfyr 15fed 2014. Gallwch wylio gwe-ddarllediad o'r cyfarfod yma yn fan [hyn](#) ac mae'r adroddiad llawn gafodd ei gyflwyno ar gael fan [hyn](#)

Mae'r arbedion, cynigion i gynyddu incwm a gwella effeithlonrwydd yn rhan o ymdrech y Cyngor i gyflawn ei flaenoriaethau corfforaethol yn unol â'r Cynllun Corfforaethol 2013-17, wrth fynd i'r afael â'r heriau ariannol cynyddol, gan gynnwys bwlch cyllido o tua £15miliwn dros y tair blynedd nesaf.

Yn yr hydref, fe lansiwyd y drafodaeth **Gwneud Gwahaniaeth**, a gofynnwyd am eich barn ar ble ddylwn roi ein ffocws dros y tair blynedd nesaf er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus modern ac addas i bwrpas. Trefnwyd ymgynghoriad ar-lein, sesiynau gyda phartneriaid megis cynghorau tref a chymuned, y Fforwm Ysgolion ac eraill a bu i swyddogion ymweld â marchnadoedd tref, llyfrgelloedd ac archfarchnadoedd i gael barn y cyhoedd. Gellir darllen canlyniadau'r ymgynghoriad yma yn fan [hyn](#)

Y gyllideb ar gyfer 2015/16 yw'r cam cyntaf yng ngwireddu **Gwneud Gwahaniaeth: Ein Strategaeth Effeithlonrwydd 2014-17** ac mae'n adlewyrchu ein hwyth egwyddor effeithlonrwydd, sef:

- Sicrhau gwerth da am arian
- Lleihau cost reoli, democratiaeth a biwrocratiaeth
- Trawsnewid gwasanaethau statudol
- Gweithio gydag eraill i arbed arian/gwasanaethau
- Cael y mwyaf allan o staff
- Cynyddu incwm
- Herio'r ddarpariaeth o wasanaethau anstatudol ble y mae/y byddai eraill yn medru darparu'r rhain
- Deall effaith ein cynigion ar Ynys Môn a'i drigolion



Mae'r cynigion sy'n cael eu hamlinellu yn fan hyn yn opsiynau y mae'r Cyngor angen cysidro rhwng rwan a Chwefror 2015, pryd y bydd rhaid gwneud y penderfyniad terfynol ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae holl gynghorwyr Cyngor Sir Ynys Môn wedi cael eu gwahodd i weithdy yn fuan yn y flwyddyn newydd i fynd drwy'r opsiynau gwahanol ar gyfer arbedion.

Treth Cyngor

Ar hyn o bryd, mae Treth Cyngor yn darparu ychydig llai na 25% o incwm y Cyngor.

Mae'r bwlch cyllido sydd wedi ei adnabod, a'r arbedion sydd angen ei gwneud o ganlyniad, wedi eu seilio ar gynnydd arfaethedig o 5% yn nhreth y Cyngor. Isod gweler tabl sy'n egluro'r gwahanol opsiynau, yr incwm y byddai gwahanol lefelau o dreth cyngor yn dod i mewn, lefelau'r arbedion y byddai angen eu gwneud ar wahanol ganrannau o gynnydd, ac effaith wythnosol ar eiddo Band D.

%	Treth Gyngor £	Arbedion Angenrheidiol	Effaith Wythnosol ar Band D	Cyfanswm
5	30,988,000	4,080,801	1.2	25.2
4.75	30,914,000	4,154,801	1.14	25.14
4.5	30,840,000	4,228,801	1.08	25.08
4.25	30,766,000	4,302,801	1.02	25.02
4	30,766,000	4,302,801	0.96	24.96

Tra bod ychydig dros £4 miliwn o arbedion yn cynrychioli dim ond 3% o'n gwariant, mae'n debyg y byddent yn cael mwy o effaith ar rai gwasanaethau nag eraill, oherwydd mae'n rhaid i ni ddiogelu rhai gwasanaethau, er enghraifft ysgolion. Mae meysydd eraill yn uchel o ran risg, megis gwasanaethau cymdeithasol, neu'n flaenoriaethau corfforaethol. Mae rhai yn swyddogaethau pwysig ble mae gofyn i ni barhau i'w darparu.

Pam ydym ni'n ymgynghori â chi?

Mae'r cynnydd arfaethedig o 5% yn Nhreth y Cyngor a rhai o'r arbedion yr ydym nawr yn eu cysidro yn debygol o gael effaith uniongyrchol arnoch chi fel trigolion, aelodau o staff, grwpiau cymunedol a'r amgylchedd ehangach ac felly **rydym eisiau eich sylwadau a'ch syniadau am sut fedrwn ni leihau'r effaith yna.**

Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yma yn cael ei adrodd i gynghorwyr sir cyn iddynt wneud eu penderfyniadau terfynol, ac fe fydd crynodeb o'ch ymatebion hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.



Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad yma drwy:

Gwblhau'r arolygion ar ein gwefan www.ynysmon.gov.uk/ymgyngoriadcylideb **wedi i chi ddarllen drwy'r cynigion isod.**

Neu gallwch anfon eich sylwadau i ymgynghoricyllideb@ynysmon.gov.uk

Neu ysgrifennwch atom: Cwrdd â'r Heriau: Ymgynghoriad ar Gyllideb 2015-16,
Swyddfa'r Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77
7TW

Dyddiad cau'r ymgynghoriad yw Dydd Gwener, 23rd Ionawr 2015.

Os ydych angen fersiwn print bras ffoniwch 01248 752128.

Mae'r cynigion arbedion yn cael eu darparu ar y tudalennau sy'n dilyn.

Math o Arbedion Effeithlorwydd		Gwasanaeth	Arbedion Arfaethedig	Cyfanswm £'000
Gwerth Da am Arian	1	Priffyrdd	Lleihad yng nghyllideb gwaith priffyrdd a goleuadau priffyrdd	514.0
	2	Gwastraff	Gostwng dyddiau agor (i 5 diwrnod y safle) ac oriau gwaith diwygiedig yn safleoedd ailgylchu Penhesgyn a Gwalchmai	80.0
	3	Gwastraff	Gostwng cyllideb costau tirlenwi	75.0
	4	Gwasanaethau Plant	Gostwng costau asiantaethau maethu annibynnol	75.0
	5	Gwastraff	Newidiadau cyflenwi gwasanaethau Gwastraff Clinigol	67.0
	6	Gwastraff	Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus o hyd at bedwar eitem am ddim unwaith bob blwyddyn ariannol yn hytrach na dwywaith, gydag uchafswm blynyddol ar gyfer yr ynys.	60.0
	7	Priffyrdd	Newid aildendro Gwasanaethau Bws	60.0
	8	Gwasanaethau Plant	Gostwng costau lleoliadau allsirol	51.0
	9	Addysg	Gostyngiad yng nghyllideb Gwellu Safonau Ysgol	43.4
	10	Priffyrdd	Gostyngiad yng nghyllideb Gwaith Arafu Traffig a Strwythurau	40.0
	11	Gwastraff	Colli swydd wag tymor hir	38.0
	12	Gwasanaethau Plant	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed - dod â'r trefniant cyfredol i ben	38.0
	13	Cynllunio	Gostyngiad Cyfraniad Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd	25.0
	14	Gwasanaethau Plant	Arbedion effeithlonrwydd yn y gwasanaeth	20.0
	15	Addysg	Newidiadau Cyflenwi Gwasanaethau Allgymorth sy'n rhan o'r Gwasanaeth Ieuencid	16.3

	16	Diwylliant	Gostyngiad yn y dyraniad i Grantiau i'r Celfyddydau	10.7
	17	Cynllunio	Arbedion effeithlonrwydd yn y gwasanaeth	17.0
	18	Diwylliant	Arbedion effeithlonrwydd yn y gwasanaeth	13.6
	CYFANSWM CYNIGION GWERTH DA AM ARIAN			£1,244
Her barhaus o'r gwasanaethau	1	Gwastraff	Gostyngiad yng nghyllideb glanhau strydoedd	206.0
	2	Addysg	Gostyngiad o 10% yn y cyfraniad i'r Cyd-bwyllgor AAA	93.0
	3	Addysg	Gostyngiad lleoliadau allsirol	80.0
	4	Addysg	Gostwng cyfraniad i grantiau'r Urdd, Ffermwyr Ifanc a Gwasanaeth Cerddoriaeth William Mathias	65.6
	5	Adfywio Economaidd a Chymdeithasol	Gostyngiad yn y gyllideb i'r cwmni rheoli sy'n rhedeg Canolfan Gwybodaeth i Dwristiaid yn Llanfairpwll	53.0
	6	Adfywio Economaidd a Chymdeithasol	Arbedion effeithlonrwydd yn y gwasanaeth	56.3
	7	Addysg & Diwylliant	Arbedion effeithlonrwydd yn y gwasanaeth	29.6
	8	Addysg	Gostyngiad yng nghyllideb Dyslecsia Cynradd	27.2
	9	Adfywio Economaidd a Chymdeithasol	Gostyngiad yng nghyllideb gweithredol – Prosiectau Ewropeaidd	13.0
	CYFANSWM ARBEDION – HER BARHAUS O'R GWASANAETHAU			£610.7

Gostwng costau rheoli, democratiaeth a biwrocratiaeth	1	Priffyrdd,Hamdden, Adfywio Economaidd a Chymdeithasol, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Trawsnewid, Celfyddydau a Diwylliant	Rhesymoli staffio, lleihau a chael gwared o swyddi gwag	511.5
	2	Busnes y Cyngor	Rhesymoli'r Uwch Dim Arweinyddiaeth	300.0
	3	Ar draws y Cyngor	Cynllun Gweithio'n Gallach	300.0
	4	Gwasanaethau Oedolion	Cael gwared o linellau cyllideb cyffredinol heb eu defnyddio	200.0
	5	Busnes y Cyngor	Arbedion ar gostau papur, costau argraffu a chostau postio copïau called o gofnodion a rhaglenni yn yr Adain Bwyllgorau	25.0
	6	Adfywio Economaidd a Chymdeithasol	Gostyngiad yng nghyllideb weithredol - gweinyddiaeth	12.0
CYFANSWM YR ARBEDION O OSTWNG COSTAU RHEOLI, DEMOCRATIAETH A BIWROCRATIAETH				£1,348
Gweithio ar y cyd gydag eraill i arbed arian neu cynnal lefelau gwasanaeth	1	Gwastraff	Gweithio ar y Cyd	50.0
	2	Priffyrdd	Gostyngiad yng Nghyllideb Safecote	25.0
	3	Cynllunio	Incwm Ffi Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid	10.0
CYFANSWM ARBEDION O WEITHIO AR Y CYD GYDAG ERAILL I ARBED ARIAN NEU CYNNAL LEFELAU GWASANAETHAU				£85.0

Macsemeiddio Cynhyrchu Incwm	1	Addysg	Brecwast am Ddim yn yr Ysgol – cyflwyno ffi i ddisgyblion sydd ddim yn derbyn cinio am ddim	171.0
	2	Gwasanaethau Oedolion	Creu cyllideb incwm ar gyfer taliadau gohiriedig gofal	127.0
	3	Adfywio Economaidd a Chymdeithasol	Cynyddu cynhyrchu incwm ar draws gweithgareddau canolfannau hamdden	105.9
	4	Waste	Gwerthu gwastraff gwyrdd	75.0
	5	Adnoddau	Ymarferion tendro	65.0
	6	Gwastraff	Cost o £25 am fin du ar olwynion sy'n cael ei golli, ei ddifrodi, ei ddwyn neu ar gyfer tŷ newydd ei adeiladu	50.0
	7	Addysg	Cynyddu ffioedd ar gyfer teithio ôl-16 a chodi am ddisgyblion ôl-16 mewn ysgolion	50.0
	8	Priffyrdd	Cynyddu incwm parcio drwy gyflwyno ffioedd parcio yn Rhoscolyn, Tŷ'r Orsaf Llangefni, Porth Swtan a Stanley Crescent Caergybi a chynyddu cost parcio o 10c yr awr am y ddwy awr gyntaf ond dim newid i'r ffi am barcio am hanner awr.	40.0
	9	Eiddo	Adolygu incwm wedi ei amgàu ar gyfer mân-ddaliadau	36.0
	10	Adnoddau	Costau cardiau credyd	16.0
	11	Gwasanaethau Oedolion	Cynhyrchu incwm Gofal Gwell Môn	10.0
	12	Diwylliant ac Addysg	Rhaglenni a digwyddiadau i gynhyrchu incwm	8.8
	13	Tai	Gostyngiad cyffredinol i linellau cyllideb cyflenwadau a gwasanaethau	2.0
CYFANSWM ARBEDION O FACSEMEIDDIO CYNHYRCHU INCWM				£756.7

Cael o gorau allan o staff	1	Amrywiol wasanaethau	Cael gwared o'r gyllideb Lwfansau Car	26.3
	2	Cynllunio	Cyfleoedd secondio staff	13.0
	CYFANSWM ARBEDION CAEL Y GORAU ALLAN O STAFF			£39.3

Cofnodion y Fforwm Sgrwtini Agored a gynhaliwyd gyda Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Sgrwtini

Dydd Iau, 18 Rhagfyr 2014 - 6pm i 7.30pm

Siambr y Cyngor, Llangefni.

Presennol	Cyngor Tref a Chymuned / Sefydliad
Griff Pritchard	Llanfair M.E
Catherine Lloyd	Trewalchmai
Margaret Price	Trewalchmai
Egryn Lewis	Llangefni
J A Jones	Llanfaethlu a Llanfwrog
Anna Jones	Tref Alaw
Eric Roberts	Trearddur
Margaret Thomas	Llangefni
Stan Zalot	Biwmares
John R Jones	Medrwn Môn
Lyndsey Williams	Medrwn Môn (Lleisiau'r Gymuned)
Jackie Blackwell	Cyngor ar Bopeth
Hefyd yn Bresennol:	
Derlwyn Hughes	Cadeirydd y Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio
Alun Mummary	Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio
Meirion Jones	Cadeirydd y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol
Gwilym Jones	Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol
Huw Jones	Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd
Bev Symonds	Rheolydd Sgrwtini
Geraint Wyn Roberts	Swyddog Sgrwtini
Ymddiheuriadau:	
Alun Foulkes	Cwm Cadnant
Meinir Davies	Porthaethwy
Marilyn Hughes	Amlwch

1. RHAGARWEINIAD

Cyflwynodd y Cynghorydd Derlwyn Hughes ei hun a chadarnhaodd y cytunwyd gyda chyd-aelodau mai ef fyddai'n cadeirio'r cyfarfod. Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Mummary, y Cynghorydd Meirion Jones a'r Cynghorydd Gwilym Jones. Rhoddwyd cyfle i'r cynrychiolwyr, yr aelodau a'r swyddogion gyflwyno eu hunain i'r cyfarfod.

Amlinellwyd rôl y ddau Bwyllgor Sgriwtini yng Nghyngor Sir Ynys Môn gan y Cynghorydd Derlwyn Hughes a dywedodd mai bwriad y cyfarfod oedd codi proffil y swyddogaeth sgriwtini ac ychwanegu at wybodaeth pobl am y weithdrefn sgriwtini, gan ddatblygu gwell cysylltiadau gyda Chynghorau Tref a Chymuned a'r sector gwirfoddol. Pwysleisiwyd bod hwn yn fforwm newydd ac y byddai gwersi'n cael eu dysgu wrth iddo ddatblygu.

2. CYFLWYNIAD A RHAGLENNI GWAITH

Cafwyd cyflwyniad gan y Rheolydd Sgriwtini ar strwythur a swyddogaethau'r pwyllgorau sgriwtini yn y Cyngor a rhoddwyd copi o'r flaenraglen waith i'r rheini a oedd yn bresennol. Pwysleisiodd mai prif bwrpas y cyfarfod oedd cychwyn trafodaeth ar y mathau o feysydd y dylai pwyllgorau sgriwtini edrych arnynt a sefydlu beth yw'r pynciau sy'n flaenoriaeth i'r cymunedau lleol. Cafwyd eglurhad ar sut i ddefnyddio a chael mynediad i dudalennau gwe'r Cyngor sy'n ymwneud â sgriwtini a sut i gysylltu â'r uned sgriwtini. Pwysleisiwyd bod Rhaglenni Gwaith y Pwyllgorau ar gael i'w gweld ar y tudalennau gwe.

3. TRAFODAETH A CHWESTIYNAU

Soniwyd ar sawl achlysur ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn cyfathrebu'n well gyda Chynghorau Tref a Chymuned. Cafwyd enghreifftiau gan y Cynghorwyr Tref a Chymuned o ymgynghori gwael, gan gynnwys ar faterion megis tai gofal ychwanegol, cael gwared ar asedau a throsglwyddo asedau i'r gymuned.

Codwyd pryder nad oedd Chynghorau Tref a Chymuned yn ymwybodol o benderfyniadau arfaethedig y Pwyllgor Gwaith ac nad oedd y broses yn un eglur o gwbl ac nad oedd hi'n caniatáu fawr ddim mewnbwn ganddynt, os o gwbl.

GWEITHREDU:

Bydd y Pennaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd yn anfon dolen at Glercod y Chynghorau Tref a Chymuned i Flaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith pan fydd honno wedi ei chytuno gan y Pwyllgor Gwaith.

4. Y CYFARFOD NESAF

Cytunwyd bod y cyfarfod hwn wedi bod yn ddefnyddiol ac y dylid cynnal cyfarfodydd pob chwe mis yn y dyfodol.

GWEITHREDU:

Trefnu cyfarfod o'r fforwm hwn ar gyfer mis Mehefin 2015